Byd Anodd y Dall



Helen Evans oedd yn arwain ein Hoedfa Foreol Gynnar ar 12 Mehefin a chawsom rannu rhai o'i phrofiadau yn gweithio ym myd hyfforddi ac addysgu plant, ac eraill, sydd â diffygion gweld. Thema'r gwasanaeth oedd un o'r pum synnwyr, sef gweld. Wedi enwi'r pedwar arall gofynnwyd i'r gynulleidfa gau eu llygaid a thrïo cofio beth oedd lliw dillad y person a oedd yn eistedd nesaf atynt. Y syndod oedd bod pawb yn cofio!

Ar ddechrau'r gwasanaeth cytunodd pedwar o'r gynulleidfa i wisgo mwgwd drwy gydol yr oedfa. Esboniwyd ein bod i gyd yn cymryd ein synhwyrau'n ganiataol ac yn byw ein bywydau heb orfod meddwl llawer am bobl nad ydynt mor ffodus â ni. Awn i'r cwpwrdd i nôl creision, bisgedi, siocled, sudd oren ac ati gan ddewis beth sydd ei angen yn syth. Fodd bynnag, does gan rywun dall neu berson sydd â nam ar ei olwg ddim modd o wneud hynny, heb dipyn o help.

Cawsom glywed am hanes Louis Braille (1809 - 1852) a gollodd ei olwg yn ifanc yn datblygu system gyffyrddol chwe dot i alluogi pobl ddall i ddarllen ac ysgrifennu. Mae cyfuniadau o'r chwe dot yn cynrychioli gwahanol lythrennau a rhifau, felly mae'r person dall yn gallu darllen, ysgrifennu a gwneud mathemateg drwy gyffwrdd.

Eglurodd Helen fod technoleg erbyn hyn yn golygu bod person dall yn gallu defnyddio meicrodon a thafol sy'n siarad. Dangosodd declyn sy'n adnabod papurau £5, £10 ac £20 a theclyn arall sy'n gymorth i adnabod lliw gwrthrych. Tybiwyd y byddai'r teclyn arbennig sy'n sicrhau na fydd cwpan yn gorlenwi wrth arllwys cwpanaid o de yn hynod o ddefnyddiol.

Ar ddiwedd yr oedfa, â'r mygydau wedi'u tynnu, cafwyd ymateb y gwirfoddolwyr i'r profiad. Cytunent eu bod wedi gorfod gwrando'n astud a chanolbwyntio. Profiad diflas oedd teimlo'n ynysig wrth sylweddoli nad oedd ganddynt syniad o'r hyn oedd yn digwydd yn weledol yn y festri.

Daeth yr oedfa i'w therfyn mewn gweddi gan Harri a Gwen, hwythau'n datgan ar ein rhan ein diolch am y gallu i weld, a gofyn i Dduw ofalu am y rheini sy'n methu, neu'n ei chael hi'n anodd, gweld lliw a llun.